**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (Y STRYD FAWR A SGWÂR OWAIN GLYNDŴR, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad Parêd y Llusernau a chynnau'r Goleuadau Nadolig ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aberystwyth, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n mynd tua'r gogledd fydd mynd ar Dan Dre a Ffordd Alexandra tua't gogledd-ddwyrain a Ffordd y Môr tua'r gogledd i ail-ymuno â'r A487 yn Rhodfa'r Gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Rhagfyr 2021 a bydd yn para am 1 diwrnod. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 16:00 – 18:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (GREAT DARKGATE STREET & OWAIN GLYNDWR SQUARE, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable the Lantern Parade and Christmas Lights switch-on event to be held on or near the A487 trunk road at Aberystwyth, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A487 trunk road known as Great Darkgate Street and Owain Glyndwr Square that extends from its junction with Bridge Street and Pier Street to its junction with Terrace Road.

The alternative route for northbound vehicles will be via the north-eastbound Mill Street and Alexandra Road and northbound Terrace Road to rejoin the A487 at North Parade.

The Order comes into force on 4 December 2021 and has a duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 16:00 – 18:30 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government